## 1 Adeilad y Pencadlys (*Principia*)

Yn yr adeilad mawreddog hwn roedd cyflogau'r milwyr yn cael eu cadw, a dyma lle'r oedd dyletswyddau gweinyddol hanfodol y gaer yn cael eu cynnal. Trefnir yr ystafelloedd o amgylch iard wedi'i gwneud o raean. Mae addoli crefyddol yn digwydd yn yr ystafell ganolog, y sacellum, sydd hefyd yn gartref i fflagiau milwrol y gatrawd.

## 2 Preswylfa'r pennaeth milwrol (*Praetoriwm*)

Mae cadlywydd y gaer a'i deulu yn byw yn y gyfres yma o ystafelloedd moethus. Mae ganddynt gyfleusterau ymolchi personol ac maent yn mwynhau eu iard eu hunain. Mae gan y cadlywydd ddigon o le i ddadflino o straen rhedeg caer.

## 3 Ysguboriau / ystordai (*Horrea*)

Mae nifer o bobl i'w bwydo mewn caer fawr. Lleolir y ddwy ysgubor gerllaw'r porth gogleddol i gael mynediad agosach at yr afon, lle mae nwyddau yn cyrraedd ar gychod. Caiff grawn a bwydydd eraill eu storio mewn cynwysyddion ar lawr pren wedi'i godi er mwyn eu cadw'n sych.

## 4 Blociau'r baracs

Ceir trefniadau cysgu digon syml ar gyfer y milwyr. Mae lle i 80 o ddynion ym mhob bloc, 10 ym mhob ystafell. Ar derfyn yr adeilad hir, mae ystafelloedd mwy yn lletya'r canwriad, yr uwch filwr, ynghyd â'i staff a'i gaethweision.

## 5 Anheddiad sifilaidd (*Vicus*)

Mae rhes o adeiladau pren sy'n cynnal bywyd y gaer ar hyd y ffordd sy'n arwain o borth gogleddol Caerhun. Gall milwyr wario eu cyflogau gyda'r masnachwyr, a darperir nwyddau a gwasanaethau i'r gaer drwy weithdai diwydiannol bychain. Mae sifiliaid, teuluoedd y milwyr cynorthwyol o bryd i'w gilydd, yn byw yn yr ardal hon.

## 6 Baddondy

Yn ogystal ag ymolchi, mae adeilad y baddondy yn lle poblogaidd i ymarfer corff, cymdeithasu a thrafod busnes. Cedwir aer poeth i symud rhwng y twymfeydd, sef pileri o dan y llawr, gan ffwrnais fawr. Ar ôl tylino'r corff, mae caethwas yn crafu chwys ac olew oddi ar y corff gydag ysgrafell fetel. Mae mynd am drochiad yn y pwll oer yn cwblhau'r broses ymolchi!



## 1 Headquarters building (*Principia*)

This grand building is where the soldiers' wages are stored, and where the essential administrative duties of the fort are carried out. The rooms are arranged around a gravel courtyard. Religious worship takes place in the central room, the sacellum, which also houses the regiment's military flags.

## 2 Commanding officer's residence (*Praetorium*)

The fort's commander and his family live in this luxurious suite of rooms. They have personal bathing facilities and enjoy their own courtyard. The commander has plenty of space to unwind from the strain of running a fort.

## 3 Granaries / warehouses (*Horrea*)

A large fort has many mouths to feed. The two granaries are located near the north gate for closer access to the river, where goods arrive by ship. Grain and other foods are stored in containers on a raised wooden floor to keep them dry.

## 4 Barrack blocks

The sleeping arrangements for the soldiers are modest. Each block houses 80 men, 10 to each room. At the end of the long building, larger rooms accommodate the centurion, the senior soldier, along with his staff and slaves.

## 5 Civilian settlement (*Vicus*)

The road leading from the north gate of Canovium is lined with wooden buildings that support the life of the fort. Soldiers can spend their wages with the traders, and small industrial workshops provide goods and services to the fort. Civilians, sometimes the families of the auxiliary soldiers, live in this area.

## 6 Bathhouse

The bathhouse complex is a popular place to exercise, socialise and discuss business as well as bathe. A large furnace keeps hot air travelling between the hypocausts, the underfloor pillars. A massage is followed by a slave scraping sweat and oil off the body with a metal scraper. A dip in the cold pool completes the bathing process!





Uchod: Baddondy
Above: Bathhouse

Dudalen flaen: Amlinelliad o gaer Caerhun
Front page: Outline of Canovium fort

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
© Crown copyright: Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales

## DILYNWCH Y STORI

Caer gynorthwyol yw **Segontium** sydd wedi'i chysylltu â Chaerhun gyda ffordd Rufeinig ac mae o fewn cyrraedd hawdd i ganol tref Caernarfon. Edrychwch ar amlinell y *Principa*, blociau'r baracs, yr ysguboriau a chartref y cadlywydd.

## FOLLOW THE STORY

**Segontium** is the auxiliary fort connected to Canovium by a Roman road and within easy reach of Caernarfon town centre. Explore the outlines of the *Principia*, the barrack blocks, granaries and commander's house.

Mae gweddillion Caerhun ar dir fferm preifat, felly arhoswch ar y llwybr troed cyhoeddus os gwelwch yn dda. Os ydych yn dymuno cael golwg bellach ar y gaer, yna cysylltwch â Swyddfa Ystâd Bodnant ar 01492 650562 neu e-bostiwch Holidays@bodnant-estate.co.uk.

Diolch.

The remains of Canovium are on private farmland so please stay on the public footpath. If you wish to take a closer look at the fort please contact the Bodnant Estate Office on 01492 650562 or email Holidays@bodnant-estate.co.uk.

Thank you.

Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Ein Treftadaeth
Our Heritage



## Ewch am daith o gwmpas Canovium

Croeso i Canovium. Rydych wedi cyrraedd caer Rufeinig ar lannau gorllewinol Afon Conwy. Ei phwrpas yw rheoli'r ffordd arfordirol a chroesfan yr afon ac mae'n ffurfio rhan o rwydwaith milwrol Rhufeinig yng Nghymru.

Ganrifoedd yn ddiweddarach, byddai eglwys y Santes Fair yn cael ei hadeiladu yng nghornel gogledd-ddwyreiniol y gaer, ond am rŵan, mae Canovium yn ferw o weithgarwch y garsiwn.

Darganfyddwch yr adeiladau sy'n llunio'r gaer a ble mae 500 o filwyr y Rhufeiniaid yn gweithio, bwyta, cysgu ac addoli.

## Take a tour of Canovium

Welcome to Canovium. You have arrived at the Roman fort on the west bank of the River Conwy. Its purpose is to control the coastal road and river crossing and it forms part of the Roman's military network in Wales.

Centuries later, St Mary's church will be built in the north-eastern corner of the fort but, for now, Canovium is a hive of garrison activity.

Discover the buildings that make up the fort and the places where 500 Romans soldiers work, eat, sleep and worship.